**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

# Adroddiad etifeddiaeth

Mawrth 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8018
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Enterprise.learning.comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

# Adroddiad etifeddiaeth

Mawrth 2011

## Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Sefydlwyd y Pwyllgor Menter a Dysgu gan Drydydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Mehefin 2007 i ystyried ac i adrodd ar faterion ym meysydd datblygu economaidd, trafnidiaeth, addysg a sgiliau.

Nodir pwerau'r Pwyllgor yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Rheol Sefydlog 12 yn arbennig. Ceir y rhain yn: http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-assembly-guidance.htm

## Aelodau'r Pwyllgor

| Aelod | Plaid | Etholaeth / Rhanbarth |
|---|---|---|
| Gareth Jones (Cadeirydd) | Plaid Cymru | Aberconwy |
| Christine Chapman | Llafur | Cwm Cynon |
| Jeff Cuthbert | Llafur | Caerffili |
| Andrew Davies | Llafur | Gorllewin Abertawe |
| Paul Davies | Plaid Geidwadol Cymru | Preseli Sir Benfro |
| Nerys Evans | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Brian Gibbons | Llafur | Aberafan |
| Darren Millar | Plaid Geidwadol Cymru | Gorllewin Clwyd |
| Jenny Randerson | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Canol Caerdydd |

# Cynnwys


**Argymhellion y Pwyllgor** .......... **5**

**Edrych yn Ôl** .......... **10**

**Edrych Ymlaen** .......... **11**

Y Flaenraglen Ffyrdd .......... 11

Lleoliad Comisiynydd Traffig Cymru .......... 12

Cynllunio'n strategol .......... 13

Y Flaenraglen Rheilffyrdd .......... 14

Trydaneiddio .......... 14

Cysylltiad rheilffordd rhwng y De a'r Gogledd .......... 15

Cerbydau trên .......... 15

Pwerau a chyllido .......... 16

System docynnau integredig .......... 18

Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig y Pwyllgor ar Briffyrdd a Thrafnidiaeth .......... 19

Cynnydd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hyd Ionawr 2011 .......... 19

Cynnydd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar ôl Ionawr 2011 .......... 20

Cronfeydd Strwythurol: Gweithredu Rhaglenni 2007-13 .......... 21

Perfformiad y Rhaglenni .......... 22

Casglu data a dyblygu ymdrechion .......... 23

Arian Cyfatebol a Dargedir .......... 24

Etifeddiaeth .......... 24

Rhaglen Adnewyddu'r Economi .......... 25

Band eang .......... 25

Monitro a gwerthuso .......... 26

Pontio a chyfathrebu .......... 26

Alinio sgiliau a datblygu economaidd .......... 27

Y Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru .......... 29

Cyllido .......... 29
Ymgysylltu â busnesau bach .......... 30
Cysylltiadau ag addysg a'r trydydd sector .......... 30
Prentisiaethau .......... 31
Gwybodaeth am y Farchnad Lafur .......... 31
Entrepreneuriaeth .......... 32
Eiddo Deallusol a chyfnewid gwybodaeth .......... 33
Ymchwil .......... 34
Ymgysylltu â busnes .......... 34
Yr Agenda Weddnewid ar gyfer Addysg ôl-16 oed .......... 36
Cynnydd yn ystod y 12 mis diwethaf .......... 36
Pobl ifanc agored i niwed .......... 37
**Atodiad A – Ffeithiau a Ffigurau .......... 38**

## Argymhellion y Pwyllgor

**Argymhelliad 1.** Dylid annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud ei rhaglen gyfalaf yn fwy eglur a manwl yn y Pedwerydd Cynulliad i alluogi craffu mwy tryloyw ac effeithiol, ac i gyhoeddi'r dogfennau llawn ar-lein. (Tudalen 12)

**Argymhelliad 2.** Yn y Pedwerydd Cynulliad dylid craffu ar Weinidogion Cymru ar y cynnydd a wnaethpwyd yn eu trafodaethau â Llywodraeth y DU ar sefydlu swyddfa yng Nghymru ar gyfer Comisiynydd Traffig Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 3.** Yn y Pedwerydd Cynulliad dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gael ei herio i gynhyrchu gwerthusiad cost effeithiol manwl o brosiectau ffyrdd – o ran creu ffyniant a hefyd er mwyn cynnal cymunedau – yn ogystal â chynllun tymor hir sy'n amlinellu blaenoriaethau datblygu ffyrdd yn eglur yng nghyd-destun y cyllid sydd ar gael a'r blaenoriaethau polisi strategol. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 4.** Bydd angen i'r Pedwerydd Cynulliad graffu ar ffurf a chynnwys y Cynllun Seilwaith Cenedlaethol. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 5.** Dylid pwyso ar Weinidogion Cymru i ddal ati i lobio Gweinidogion y DU ar yr achos busnes cryf dros drydaneiddio Prif Lein y Great Western cyn belled ag Abertawe, a dylid parhau i graffu ar y cynnydd a wneir ar ddatblygu'r achos busnes dros drydaneiddio *holl* rwydwaith ardal Caerdydd a Chledrau'r Cymoedd. (Tudalen 15)

**Argymhelliad 6.** Yn ei adroddiad yn 2010 argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru lobio Llywodraeth y DU i alluogi Prif Lein Gogledd Cymru i gael ei chysylltu'n uniongyrchol â'r Lein Cyflymder Uchel 2 (HS2) o Lundain i Ogledd Orllewin Lloegr a'r Alban. Dylid parhau i fonitro hyn. (Tudalen 15)

**Argymhelliad 7.** Dylid dal ati i bwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynhyrchu cynllun tymor hir i uwchraddio cerbydau trên y wlad, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid eraill, i sicrhau bod gwasanaethau'n ateb y galw ac yn gydnaws ag anghenion technoleg y dyfodol, megis trydaneiddio. (Tudalen 16)

**Argymhelliad 8.** Dylid dal ati i roi pwysau ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cyllid refeniw ar gyfer gwella'r gwasanaeth rheilffordd lle mae'r seilwaith angenrheidiol wedi'i ddarparu eisoes, gan gynnwys cyflwyno trenau chwe cherbyd ar Gledrau'r Cymoedd fel y rhagwelwyd rhai blynyddoedd yn ôl. (Tudalen 16)

**Argymhelliad 9.** Dylid annog Gweinidogion Cymru i ddatganoli ymhellach y pwerau perthnasol *a'r cyllid cysylltiedig* ar gyfer seilwaith a gwasanaethau rheilffordd yng Nghymru. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 10.** Dylid pwyso ar Weinidogion Cymru i ddefnyddio'r broses i adnewyddu masnachfraint Cymru a'r Gororau fel cyfle i negodi gwelliannau i'r gwasanaethau rheilffordd a cherbydau trên a fyddai'n caniatáu ar gyfer trydaneiddio a thwf yn y dyfodol, a hefyd fel cyfle i ystyried rhedeg y fasnachfraint ar delerau dielw neu ddi-ddifidend. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 11.** Efallai y bydd pwyllgorau yn y dyfodol yn dymuno pwyso ar Lywodraeth Cymru i ystyried defnyddio Adran dros Drafnidiaeth y DU i ddenu arian Ewropeaidd ar gyfer gwelliannau i seilwaith y rheilffyrdd sy'n gwasanaethu ardaloedd cymwys ar hyn o bryd neu yn y dyfodol yng Nghymru. (Tudalen 18)

**Argymhelliad 12.** Dylid annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio â chwmnïau trên a bws i ddatblygu system docynnau integredig ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. (Tudalen 18)

**Argymhelliad 13.** Yn y Pedwerydd Cynulliad, efallai y bydd pwyllgor y dyfodol yn dymuno edrych ar y tyndra rhwng Mesurau Cynulliad arfaethedig a gynigir gan y Llywodraeth a rhai nad ydynt yn cael eu cynnig gan y Llywodraeth, a chwilio am ganlyniad mwy boddhaol i fwrw ymlaen â'r ddau fath yn y dyfodol. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 14.** Anogir y pwyllgor perthnasol yn y Pedwerydd Cynulliad i gyflwyno Mesur Cynulliad yn gynnar a fyddai'n gosod dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd i ddatblygu a chynnal rhwydwaith o lwybrau didraffig ledled Cymru ar gyfer cerddwyr a seiclwyr. (Tudalen 21)

**Argymhelliad 15.** Dylai cynnydd wrth weithredu'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol presennol barhau i fod yn destun craffu yn y Pedwerydd Cynulliad. Dylai'r pwyllgor perthnasol ofyn am ddiweddariadau rheolaidd oddi wrth Lywodraeth Cymru a dylai

ymdrechu i ymchwilio i wahaniaethau ac anghysonderau rhwng rhanbarthau, yn ogystal â chraffu ar berfformiad Cymru o'i gymharu â rhanbarthau eraill y DU a'r UE yn gyffredinol. (Tudalen 22)

**Argymhelliad 16.** Mae risg o hyd o gyfrif dwbl a thangyfrif deilliannau neu lwyddiannau prosiectau, a allai effeithio ar gynnydd unigolyn, a dylai'r Pedwerydd Cynulliad barhau i fonitro hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o hyn ond dylai sicrhau bod systemau casglu data yn osgoi problemau o'r fath, gan gynnwys annog cytundebau lleol pan fydd gwahanol ymyriadau prosiectau'n gorgyffwrdd. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 17.** Yn ogystal, dylid annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu cyfres lawnach o ddata i fonitro'r cynnydd y tu hwnt i Werth Ychwanegol Crynswth yn unig. (Tudalen 24)

**Argymhelliad 18.** Dylid monitro effaith y toriadau yng ngwariant y sector cyhoeddus ar argaeledd arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Cronfeydd Strwythurol yn ofalus ac, os bydd angen, dylid cael cynlluniau wrth gefn. (Tudalen 24)

**Argymhelliad 19.** Dylid herio WEFO i weithio mewn partneriaeth â'r holl brosiectau yn Rhaglenni 2007-13 i greu atebion cynaliadwy ar gyfer y cymunedau a'r unigolion a effeithir pan ddaw'r prosiectau hyn i ben. (Tudalen 24)

**Argymhelliad 20.** Dylid parhau i graffu ar waith Llywodraeth Cymru ar y cyd â Llywodraeth y DU i egluro amserlenni a sicrhau digon o arian i ddarparu band eang y genhedlaeth nesaf ar draws Cymru gyfan erbyn 2015. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 21.** Dylid parhau i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif: yn gyntaf i sicrhau bod dadansoddiadau cost a budd yn cael eu cynnal cyn gwneud unrhyw newidiadau i strategaethau datblygu economaidd, ac yn ail i fesur a gwerthuso llwyddiant Rhaglen Adnewyddu'r Economi yn drylwyr. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 22.** Mae'n hanfodol bod yr agenda sgiliau yng Nghymru'n cael ei halinio a'i hintegreiddio ag amcanion Rhaglen Adnewyddu'r Economi, yn hytrach na chael ei glynu at system sydd eisoes yn un gymhleth. Dylai'r Gweinidogion a fydd yn gyfrifol am Addysg, Sgiliau a Datblygu Economaidd yn y Pedwerydd Cynulliad ddwyn eu polisïau'n nes at ei gilydd a chraffu ar y cyd ar y manylion

sut y bydd alinio ac integreiddio twf sgiliau a thwf economaidd yn cael ei gyflawni. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 23.** Mae'r angen am uwchsgilio a thwf busnes y tu allan i'r chwe sector twf sy'n cael blaenoriaeth gan y Llywodraeth yn parhau. Dylai pwyllgor o'r Pedwerydd Cynulliad ddal ati i graffu ar y cymorth a datblygiad sgiliau a darperir gan Lywodraeth Cymru i bob busnes, ac nid i'r rhai sy'n dod o fewn y sectorau blaenoriaeth yn unig. (Tudalen 28)

**Argymhelliad 24.** Dylid annog Llywodraeth Cymru i bwyso ar brif swyddfeydd y Cynghorau Sgiliau Sector i ddeall datganoli ac i ddarparu'r adnoddau priodol yn eu swyddfeydd yng Nghymru. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 25.** Mae angen i'r Cynghorau Sgiliau Sector gymryd camau strategol i ymgysylltu â busnesau bach a chanolig, gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Dylid parhau i fonitro eu perfformiad yn y maes hwn, a gallai rhai o'r dangosyddion gynnwys bodolaeth bwrdd cynghori cyflogwyr gweithredol, ac a ydynt yn ymgysylltu drwy gwmnïau angori a'u cadwynau cyflenwi. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 26.** 75. Roedd y Pwyllgor yn pryderu ynghylch diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol y Cynghorau Sgiliau Sector. Awgrymodd y Dirprwy Weinidog efallai y gellid clystyru'r Cynghorau Sgiliau Sector o dan enwau mwy cyson fel y byddai'n haws i fusnesau bach a chanolig eu canfod ac i fanteisio arnynt. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 27.** Dylid dal ati i annog a chraffu ar berthynas y Cynghorau Sgiliau Sector â'r sector addysg ac ysgolion i gydweithio ar gwricwla a chymwysterau sy'n ateb anghenion sgiliau'r dyfodol. (Tudalen 31)

**Argymhelliad 28.** Dylid monitro'r cynllun Llwybrau at Brentisiaethau i sicrhau bod pobl ifanc sydd am ddilyn prentisiaeth yn cael y cyfle i wneud hynny, a bod cynlluniau ychwanegol ar waith pan yn bosibl i atal prentisiaethau sy'n bod eisoes rhag cael eu cwtogi. (Tudalen 31)

**Argymhelliad 29.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pa mor anodd a chymhleth yw cynllunio ar gyfer sgiliau. Fodd bynnag, mae angen gwella Gwybodaeth am y Farchnad Lafur fel y bydd yn fwy manwl, cywir, dadansoddol ac yn edrych yn fwy i'r dyfodol i wella'r ddarpariaeth sgiliau, yn enwedig ar y lefel leol. Bydd angen monitro

gwaith yr Uned Gwybodaeth am y Farchnad Lafur newydd yn y Pedwerydd Cynulliad. (Tudalen 31)

**Argymhelliad 30.** Mae angen ymagwedd fwy cydlynus tuag at ddod â syniadau o academia i'r farchnad, ac i godi statws a dylanwad hyrwyddwyr entrepreneuriaeth yn y system addysg uwch. Er gwaethaf yr hinsawdd bresennol lle mae heriau cyllido ac ailstrwythuro'n effeithio ar y sector addysg uwch, dylai masnacheiddio a chyfnewid gwybodaeth barhau i fod yn flaenoriaethau i bolisi addysg uwch. Dylai pwyllgor yn y dyfodol barhau i adolygu'r sefyllfa hon. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 31.** Dylai pwyllgor yn y dyfodol hefyd graffu ar y polisi gwyddoniaeth newydd i Gymru, sy'n cael ei arwain gan y Prif Gynghorydd Gwyddonol, i sicrhau ei fod yn cyfrannu at fasnacheiddio syniadau Cymreig ym mhynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 32.** Dylai Prifysgolion Cymru barhau i gael eu dwyn i gyfrif am eu gallu i ddenu cyllid ymchwil drwy weithio'n fwy strategol a chydweithredol. Yn fwyaf arbennig, gallai prifysgolion roi mwy o bwyslais ar flaenoriaethau'r cynghorau ymchwil. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 33.** Mae angen i sefydliadau addysg uwch ymgysylltu mwy yn y dyfodol â'r cwmnïau "angori" sydd wedi'u henwi gan Lywodraeth Cymru er mwyn cydweithredu mwy ar gymhwyso ymchwil a datblygu. Dylai'r ymagwedd gydweithredol hon barhau i gael ei monitro yn y Pedwerydd Cynulliad. (Tudalen 35)

**Argymhelliad 34.** Dylai cynnydd pellach ar yr Agenda Weddnewid barhau i fod yn destun craffu yn y Pedwerydd Cynulliad oherwydd yr heriau gwirioneddol sy'n wynebu rhai o ardaloedd y Partneriaethau Dysgu. Dylai gwaith craffu yn y dyfodol gynnwys canfyddiadau'r grŵp Gorchwyl a Gorffen ar strwythur y ddarpariaeth addysg ac effaith y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf. (Tudalen 37)

**Argymhelliad 35.** Dylai pwyllgorau'r dyfodol annog Llywodraeth Cymru i weithio'n agos ag Adran Gwaith a Phensiynau'r DU a dylent fonitro effaith Rhaglen Waith newydd Llywodraeth y DU, yn enwedig sut mae'n effeithio ar y gofal bugeiliol a ddarperir ar gyfer pobl ifanc ddi-waith yng Nghymru. (Tudalen 37)

## Edrych yn Ôl

1. Rhwng Mehefin 2007 ac Ionawr 2011 cyhoeddodd Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru 37 o adroddiadau ar bynciau sy'n dod o fewn ei gylch gwaith – datblygu economaidd, trafnidiaeth, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau. Yn ei rôl o graffu ar bolisïau a gwariant Llywodraeth Cymru, cyfarfu'r Pwyllgor 103 o weithiau yn gyhoeddus, holodd dystion 557 o weithiau a chroesholodd Weinidogion Cymru ar 51 achlysur. Gwnaeth y Pwyllgor 349 o argymhellion i Weinidogion ac roedd yn gyfrifol am wneud y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig cyntaf ac olaf gan Bwyllgor drwy'r Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU.

2. Bu Gareth Jones, Aelod Cynulliad Conwy, yn cadeirio'r Pwyllgor drwy gydol ei oes, a bu 16 Aelod Cynulliad arall yn gwasanaethu ar y Pwyllgor yn ystod y pedair blynedd; mae ffeithiau a ffigurau pellach am y Pwyllgor wedi'u cynnwys yn Atodiad A yr adroddiad hwn. Mae holl fusnes y Pwyllgor, gan gynnwys agendâu, papurau, trawsgrifiadau ac adroddiadau ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home.htm

3. Yn ystod tymor olaf y Trydydd Cynulliad, nid oedd ddigon o amser i'r Pwyllgor gynnal ymchwiliadau newydd lle byddai angen ymatebion gan Weinidogion a thrafodaethau yn y Cyfarfod Llawn cyn diddymu'r Cynulliad Cenedlaethol am hanner nos ar 31 Mawrth. Rhwng Ionawr a Mawrth bu'r Pwyllgor felly'n canolbwyntio ar waith dilynol ar adroddiadau blaenorol ar ymchwiliadau ac ar fonitro cynnydd a wnaethpwyd i weithredu ei argymhellion i'r Llywodraeth. Deilliodd nifer o faterion o'r sesiynau hynny y credai'r Pwyllgor a oedd yn haeddu ymchwilio, craffu neu fonitro pellach yn y Pedwerydd Cynulliad.

4. Mae'r Adroddiad Etifeddiaeth hwn yn gwneud nifer o awgrymiadau yr hoffai'r Pwyllgor eu trosglwyddo i'w olynydd. Mae'r adroddiad wedi'i gyflwyno i'r oddeutu 350 o fudiadau ac unigolion y bu'r Pwyllgor mewn cysylltiad rheolaidd â hwy, fel arwydd o ddiolch am y cyfraniad a wnaethpwyd ganddynt at waith y Pwyllgor, a hefyd fel prawf o bwysigrwydd dwyn Gweinidogion i gyfrif ar ran pobl Cymru i aeddfedrwydd democrataidd.

## Edrych Ymlaen

### Y Flaenraglen Ffyrdd

5. Ym mis Tachwedd 2010, bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith Gweinidogion ar Gyllideb Ddrafft 2011-12 Llywodraeth Cymru. Yn sgil y gostyngiad o 10 y cant yn y gyllideb drafnidiaeth ddrafft yn 2011-12 a'r gostyngiad o 20 y cant yn ystod y tair blynedd ddilynol (gyda gostyngiadau mwy o 40 y cant yn y gyllideb cyfalaf), cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn ym mis Ionawr 2011 ar flaenraglen ffyrdd Llywodraeth Cymru.

6. Yr oedd yn arwyddocaol hefyd bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi adroddiad tua'r un pryd ar Brosiectau Trafnidiaeth Mawr a oedd yn feirniadol dros ben o berfformiad Llywodraeth Cymru o ran cyflawni llawer o brosiectau trafnidiaeth mawr yn ogystal ag amcanion trafnidiaeth ehangach. Dangosodd yr adroddiad fod cost 18 o brosiectau trafnidiaeth mawr a oedd yn cynnwys ffyrdd a rheilffyrdd, a gwblhawyd rhwng diwedd 2004 a dechrau 2010, wedi codi 61 y cant o £366 miliwn i £592 miliwn a bod rhai wedi cymryd llawer mwy o amser na'r disgwyl i'w cwblhau.

7. Er bod y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth wedi dweud wrth y Pwyllgor pan oedd yn craffu ar Gyllideb Ddrafft y Cynulliad fis Tachwedd 2010 y byddai fersiynau diwygiedig o'r rhaglenni ffyrdd a rheilffyrdd yn cael eu cyhoeddi'r mis canlynol yn dilyn y gostyngiadau mewn cyllidebau cyfalaf, nid oedd y cyhoeddiad wedi'i wneud erbyn mis Ionawr 2011 pan oedd y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth.

8. Er hynny roedd y Pwyllgor yn teimlo y byddai'n werth chweil i holi rhanddeiliaid – Comisiynydd Traffig Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr, CBI Cymru a'r Sefydliad Materion Cymreig – am eu barn am bolisi ffyrdd y Llywodraeth fel sail i graffu ar y Dirprwy Brif Weinidog ar 17 Mawrth, a hefyd craffu pellach yn y Pedwerydd Cynulliad drwy argymhellion a wneir yn yr Adroddiad Etifeddiaeth hwn.

9. Fel y digwyddodd, cyhoeddodd y Prif Weinidog, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ddatganiad at y cyd ar 15 Mawrth 2011 a oedd yn rhoi manylion pellach am gynlluniau gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-12 <u>yn unig</u>. Nid oedd y datganiad yn egluro effaith penderfyniadau ar y rhestr gyflawn

o gynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd yng Nghynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol y Llywodraeth, sy'n ymestyn dros y pum mlynedd 2010-2015 (ac sy'n cynnwys y cynlluniau a restrwyd ym Mlaenraglenni Cefnffyrdd a Rheilffyrdd 2008). Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor ar 17 Mawrth mai Llywodraeth newydd Cymru yn y Pedwerydd Cynulliad fyddai'n gyfrifol am benderfynu ar flaenoriaethau gwariant cyfalaf ar ôl 2011-12.

10. Roedd y Pwyllgor yn deall yr heriau sy'n wynebu Llywodraeth Cymru ynghylch "gohirio" neu "ailbroffilio" rhan o'i rhaglen gyfalaf yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU. Er hynny, teimlai'r Pwyllgor fod datganiad y Llywodraeth ar ei chynlluniau gwariant cyfalaf yn ddiffygiol o ran manylder ac eglurder, er gwaethaf y diffyg amser a gafwyd i'r Pwyllgor astudio'r ffigurau.

**Dylid annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud ei rhaglen gyfalaf yn fwy eglur a manwl yn y Pedwerydd Cynulliad i alluogi craffu mwy tryloyw ac effeithiol, ac i gyhoeddi'r dogfennau llawn ar-lein.**

### *Lleoliad Comisiynydd Traffig Cymru*

11. Clywodd y Pwyllgor gan y Comisiynydd Traffig fod Ardal Draffig Cymru'n parhau i gael ei thrin fel "administrative adjunct" o Ardal Draffig Gorllewin Canolbarth Lloegr,[1] sy'n golygu bod ardal draffig Cymru "at some considerable disadvantage with regard to regulation."[2]

12. Ym marn y Comisiynydd yr oedd dadl dros gael tîm cydymffurfio bychan (o bedwar neu pum aelod o staff, dyweder) wedi'i leoli yng Nghymru, ac a allai gynnwys cofrestru gwasanaethau bws yng Nghymru ymhlith ei swyddogaethau er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd gan y swyddfa gofrestru yn Leeds. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd yn amau'r angen i wasanaethau bws gael eu cofrestru â'r Comisiynwyr Traffig o gwbl, yn hytrach na chael eu cofrestru ag awdurdodau lleol.[3] Teimlai'r Pwyllgor y dylai unrhyw system fod yn syml, yn gyson ac yn dryloyw i ddarparwyr a defnyddwyr y gwasanaeth, gan ddefnyddio cyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl.

---

[1] Adroddiadau Blynyddol y Comisiynwyr Traffig 2009-10 tudalen 46
[2] Cofnod y Trafodion paragraff 7, 13 Ionawr 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu
[3] Cofnod y Trafodion paragraffau 51-59, 13 Ionawr 2011, y Pwyllgor Menter a Dysgu

13. Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor yn 2009 i Leihau Anafiadau a Rheoli Cefnffyrdd dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog ei fod yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU i benderfynu a ddylai'r Comisiynydd Traffig gael ei leoli yng Nghymru.

**Yn y Pedwerydd Cynulliad dylid craffu ar Weinidogion Cymru ar y cynnydd a wnaethpwyd yn eu trafodaethau â Llywodraeth y DU ar sefydlu swyddfa yng Nghymru ar gyfer Comisiynydd Traffig Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr.**

### *Cynllunio'n strategol*

14. Un o'r prif ddadleuon a roddwyd gerbron gan y Sefydliad Materion Cymreig oedd yr angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu "an imaginative and bold visionary approach" tuag at drafnidiaeth drwy gynllunio ar gyfer tymor hwy – hyd at bump, deg neu 15 mlynedd ymlaen – yn hytrach na'r system bresennol o gynllunio ar gyfer dwy neu dair blynedd yn unig ar y tro.[4]

15. Oherwydd yr amser hir cyn dechrau gweithio ar brosiectau trafnidiaeth mawr roedd y Pwyllgor yn cytuno bod angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu ymagwedd fwy strategol tuag at ei blaenraglen ffyrdd. Roedd y Pwyllgor hefyd yn cydnabod bod angen i'r rhaglen ffyrdd adeiladu'r economi a chysylltu'r genedl gyfan.

**Yn y Pedwerydd Cynulliad dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gael ei herio i gynhyrchu gwerthusiad cost effeithiol manwl o brosiectau ffyrdd – o ran creu ffyniant a hefyd er mwyn cynnal cymunedau – yn ogystal â chynllun tymor hir sy'n amlinellu blaenoriaethau datblygu ffyrdd yn eglur yng nghyd-destun y cyllid sydd ar gael a'r blaenoriaethau polisi strategol.**

16. O ran datblygiadau seilwaith yn fwy cyffredinol, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor y byddai Cynllun Seilwaith Cenedlaethol arfaethedig Llywodraeth Cymru (sy'n cynnwys ysgolion, ysbytai, ffyrdd, adeiladau) yn cael ei weithredu gan y Llywodraeth newydd yn y Pedwerydd Cynulliad.

**Bydd angen i'r Pedwerydd Cynulliad graffu ar ffurf a chynnwys y Cynllun Seilwaith Cenedlaethol.**

---

[4] Cofnod y Trafodion paragraffau 111 a 120, 13 Ionawr 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Y Flaenraglen Rheilffyrdd

17. Roedd adroddiad y Pwyllgor ar Seilwaith Rheilffyrdd Cymru yn y Dyfodol, a gyhoeddwyd fis Ionawr 2010, yn ymdrech i ddylanwadu ar y blaenoriaethau a'r mecanweithiau ar gyfer cynllunio rheilffyrdd yng Nghymru yn ystod yr 20 i 30 mlynedd nesaf. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad heb gynsail gan ei fod yn derbyn pump yn unig o'r 21 argymhelliad yn llawn ac yn gwrthod naw – cafodd y gweddill eu derbyn mewn egwyddor. Roedd y Pwyllgor felly'n awyddus i glywed sylwadau ar y cynnydd a wnaethpwyd yn y flwyddyn ers cyhoeddi ei adroddiad. Ar 20 Ionawr, bu'r Pwyllgor yn holi'r Athro Stuart Cole o Grŵp Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Network Rail a Threnau Arriva Cymru, ac ar 17 Mawrth holwyd y Dirprwy Brif Weinidog ar ei ymateb i argymhellion y Pwyllgor.

18. Dywedodd papur ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog ar gyfer y sesiwn graffu ar 17 Mawrth nad oedd y Cabinet wedi gwneud penderfyniad eto ar brosiectau cyfalaf, ac na allai roi gwybodaeth am gynlluniau rheilffyrdd fel yr oedd wedi'i addo ym mis Rhagfyr.[5] Fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 8 uchod, roedd datganiad Llywodraeth Cymru ar ei Chynlluniau Gwariant Cyfalaf 2011-12 wedi'i wneud ar brynhawn 15 Mawrth, llai na deuddydd cyn sesiwn graffu'r Pwyllgor.

### *Trydaneiddio*

19. Yn ei adroddiad yn 2010, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Prif Lein y Great Western o Paddington i Abertawe a rhwydwaith ardal Caerdydd, gan gynnwys Cledrau'r Cymoedd, fod ymhlith y blaenoriaethau ar gyfer trydaneiddio.

20. Ym mis Ionawr 2011, dywedodd Stuart Cole, Athro Trafnidiaeth ym Mhrifysgol Morgannwg, wrth y Pwyllgor fod trydaneiddio Prif Lein y Great Western ar hyn o bryd yn "the most important rail infrastructure investment project facing south Wales."[6] Hefyd yn ei dystiolaeth ysgrifenedig dywedodd:

> "The UK Government has claimed without any rationale that the Barnett Formula does not apply to railways. Even if you believe that formula is flawed it still gives Wales 5% of English rail spend rather than the 2% we currently receive based on passenger numbers. That would mean the Assembly

---

[5] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 17 Mawrth 2011, paragraff 5
[6] Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Stuart Cole, 20 Ionawr 2011, tudalen 2

> Government would have to find £200m for electrification from Bristol to Swansea but the increase in block grant would give Wales that and more."[7]

21. Ar adeg sylwadau'r Athro Cole, nid oedd penderfyniad Llywodraeth y DU ar drydaneiddio'r lein o Lundain i Abertawe wedi'i gyhoeddi. Yna ar 1 Mawrth, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth y byddai Prif Lein y Great Western yn cael ei thrydaneiddio o Paddington i Gaerdydd, ac y byddai'r Adran dros Drafnidiaeth yn gweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu achos busnes ar gyfer trydaneiddio rhai o Gledrau'r Cymoedd a Chaerdydd.

**Dylid pwyso ar Weinidogion Cymru i ddal ati i lobio Gweinidogion y DU ar yr achos busnes cryf dros drydaneiddio Prif Lein y Great Western cyn belled ag Abertawe, a dylid parhau i graffu ar y cynnydd a wneir ar ddatblygu'r achos busnes dros drydaneiddio *holl* rwydwaith ardal Caerdydd a Chledrau'r Cymoedd.**

### *Cysylltiad rheilffordd rhwng y De a'r Gogledd*

22. Ar 9 Mawrth 2011 cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog arian ar gyfer ail wasanaeth rheilffordd cyflym rhwng y De a'r Gogledd sy'n aros yn Wrecsam. Cyhoeddodd hefyd ei fod wedi comisiynu astudiaeth gan Network Rail o'r opsiynau i wella'r seilwaith rhwng Caergybi a Chaerdydd, a fydd wedi'i chwblhau erbyn diwedd Ebrill 2011. Rhan o'r astudiaeth hon oedd galluogi gwasanaeth gwreiddiol Y Gerallt Cymro i deithio drwy Gaer a Wrecsam yn hytrach na Crewe.

**Yn ei adroddiad yn 2010 argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru lobio Llywodraeth y DU i alluogi Prif Lein Gogledd Cymru i gael ei chysylltu'n uniongyrchol â'r Lein Cyflymder Uchel 2 (HS2) o Lundain i Ogledd Orllewin Lloegr a'r Alban. Dylid parhau i fonitro hyn.**

### *Cerbydau trên*

23. Bydd masnachfraint bresennol Cymru a'r Gororau (Trenau Arriva Cymru) yn dod i ben fis Rhagfyr 2018. Ym marn Trenau Arriva Cymru roedd felly'n bryd i ystyried cael gwared ar y cerbydau trên a oedd yn heneiddio i sicrhau trenau modern a oedd yn ateb y galw ar gyfer y

---

[7] Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Stuart Cole, 20 Ionawr 2011, tudalen 7

blynyddoedd i ddod."[8] Er hynny, roedd ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor ar Seilwaith Rheilffyrdd Cymru yn y Dyfodol yn gwrthod yr argymhelliad i gyhoeddi cynllun cerbydau trên ar gyfer Cymru. Gan gofio'r cynnydd parhaus yn nifer y teithwyr ar wasanaethau trên, credai'r Pwyllgor fod hyn yn dangos diffyg gweledigaeth a synnwyr cyffredin.

**Dylid dal ati i bwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynhyrchu cynllun tymor hir i uwchraddio cerbydau trên y wlad, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid eraill, i sicrhau bod gwasanaethau'n ateb y galw ac yn gydnaws ag anghenion technoleg y dyfodol, megis trydaneiddio.**

24. Clywodd y Pwyllgor hefyd gan Drenau Arriva Cymru fod y penderfyniad ynghylch amseriad cyflwyno'r trenau thri cherbyd hir ddisgwyliedig ar Gledrau'r Cymoedd yn gyfan gwbl yng ngofal Llywodraeth Cymru.[9]

**Dylid dal ati i roi pwysau ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cyllid refeniw ar gyfer gwella'r gwasanaeth rheilffordd lle mae'r seilwaith angenrheidiol wedi'i ddarparu eisoes, gan gynnwys cyflwyno trenau chwe cherbyd ar Gledrau'r Cymoedd fel y rhagwelwyd rhai blynyddoedd yn ôl.**

### *Pwerau a chyllido*

25. Argymhellodd y Pwyllgor yn ei adroddiad yn 2010 y dylid llunio concordat ffurfiol â Network Rail i helpu i sicrhau mwy o dryloywder wrth gynllunio rheilffyrdd a chysylltiadau a chydweithredu mwy clos i sicrhau bod y dyheadau ar gyfer seilwaith rheilffyrdd Cymru yn y dyfodol yn cael eu cydlynu a'u gwireddu. Gwrthododd y Dirprwy Brif Weinidog yr argymhelliad hwn.

26. Dywedodd yr Athro Cole wrth y Pwyllgor fod cyfle yn awr i Network Rail Cymru a'r Gororau gael ei ariannu a'i gyfarwyddo gan Lywodraeth Cymru yn yr un modd â masnachfraint Cymru a'r Gororau. Fodd bynnag, dywedodd fod hyn yn amodol ar gael rhyw fath o gorff integreiddio i sicrhau statws cyfartal rhwng y gwahanol lwybrau cysylltu sy'n croesi'n ôl a blaen dros y ffin. Mae gan yr Alban y math

[8] Cofnod y Trafodion paragraff 108, 20 Ionawr 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu
[9] Cofnod y Trafodion paragraff 162, 20 Ionawr 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu

hwnnw o bŵer a pherthynas â Network Rail eisoes, gan fod ei rhwydwaith rheilffyrdd yn annibynnol.[10]

27. Ar 15 Mawrth 2011, ddeuddydd cyn sesiwn graffu'r Pwyllgor â'r Dirprwy Brif Weinidog, cyhoeddodd Network Rail ei fwriad i greu uned fusnes ddatganoledig i wasanaethau cwsmeriaid a theithwyr yng Nghymru a'r Gororau. Wedi'i lleoli yng Nghaerdydd, byddai'r uned yn ymdrechu i gynyddu ymatebolrwydd lleol a chreu llwybr newydd i Gymru am y tro cyntaf yn hanes ei rheilffyrdd. Rhoddodd y Gweinidog groeso cynnes i'r cyhoeddiad ar yr uned ddatganoledig, ac felly hefyd y Pwyllgor, ond mynegodd y ddau eu hawydd i weld y gyllideb gysylltiedig a'r cyfrifoldeb am bennu'r hyn y dylai'r uned ei gyflawni hefyd yn cael eu datganoli. Roedd y Pwyllgor yn bryderus y dylai unrhyw ddatganoli o'r gyllideb yn y dyfodol ystyried y tanfuddsoddi hanesyddol a fu yn y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru.

28. Mae Ysgrifennydd Trafnidiaeth y DU, Philip Hammond AS, yn cadeirio panel rheilffyrdd lefel uchel a fydd yn trafod y ffordd orau o ddiwygio'r diwydiant rheilffyrdd, a bydd y cynigion terfynol ar gyfer diwygio rheilffyrdd Prydain yn cael eu cyhoeddi erbyn Tachwedd 2011.

**Dylid annog Gweinidogion Cymru i ddatganoli ymhellach y pwerau perthnasol *a'r cyllid cysylltiedig* ar gyfer seilwaith a gwasanaethau rheilffordd yng Nghymru.**

29. O ran sicrhau gwelliannau i wasanaethau a mynychder trenau gan fasnachfraint Cymru a'r Gororau (Trenau Arriva Cymru), dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y byddai'n rhaid i'r rhain gael eu hariannu o gyllideb Llywodraeth Cymru, ond y gellid gwneud mwy o gynnydd tua'r adeg pan fydd y fasnachfraint yn cael ei hadnewyddu.

**Dylid pwyso ar Weinidogion Cymru i ddefnyddio'r broses i adnewyddu masnachfraint Cymru a'r Gororau fel cyfle i negodi gwelliannau i'r gwasanaethau rheilffordd a cherbydau trên a fyddai'n caniatáu ar gyfer trydaneiddio a thwf yn y dyfodol, a hefyd fel cyfle i ystyried rhedeg y fasnachfraint ar delerau dielw neu ddi-ddifidend.**

30. Bu'r Pwyllgor yn trafod â'r Gweinidog y syniad o ariannu gwelliannau i'r seilwaith rheilffordd (megis trydaneiddio'r lein i'r

---

[10] Cofnod y Trafodion paragraff 51, 20 Ionawr 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu

gorllewin o Gaerdydd) ag arian Ewrop, gan ddefnyddio'r Adran dros Drafnidiaeth fel y cyllidwr craidd – yn yr un ffordd ag y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau, er enghraifft, wedi bod yn gyllidwr craidd llawer o brosiectau yng Nghymru. Ymddengys nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried potensial y dull hwn yn fanwl iawn.

**Efallai y bydd pwyllgorau yn y dyfodol yn dymuno pwyso ar Lywodraeth Cymru i ystyried defnyddio Adran dros Drafnidiaeth y DU i ddenu arian Ewropeaidd ar gyfer gwelliannau i seilwaith y rheilffyrdd sy'n gwasanaethu ardaloedd cymwys ar hyn o bryd neu yn y dyfodol yng Nghymru.**

### *System docynnau integredig*

31. Clywodd y Pwyllgor gan Drenau Arriva Cymru fod system docynnau electronig integredig ar gyfer Cymru – tebyg i gerdyn Oyster – a fyddai'n galluogi teithwyr i deithio ar fysiau a threnau, yn parhau i fod gryn amser i ffwrdd.[11]

**Dylid annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio â chwmnïau trên a bws i ddatblygu system docynnau integredig ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru.**

[11] Cofnod y Trafodion paragraffau 141-144, 20 Ionawr 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig y Pwyllgor ar Briffyrdd a Thrafnidiaeth

32. Ar 17 Hydref 2007 cyflwynodd Sustrans, yr elusen trafnidiaeth gynaliadwy, sy’n cael ei chefnogi gan gynghrair o fudiadau, ddeiseb i Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Cynulliad i geisio pwerau i Weinidogion Cymru i osod dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd i ddatblygu a chynnal rhwydwaith o lwybrau didraffig ledled Cymru ar gyfer cerddwyr a seiclwyr.

33. Cafodd y ddeiseb ei chyfeirio at y Pwyllgor Menter a Dysgu, a gymeradwyodd yn ddiweddarach y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) cyntaf erioed i gael ei gynnig gan Bwyllgor. Nod y Gorchymyn oedd cynyddu cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran darpariaeth llwybrau gan awdurdodau priffyrdd yng Nghymru ar gyfer eu defnyddio’n unig neu’n bennaf gan unrhyw un neu ragor o’r canlynol: cerddwyr, seiclwyr, pobl ar gefn ceffyl neu sy’n arwain ceffyl. Ar adeg sesiwn graffu breifat y Pwyllgor â swyddogion Llywodraeth Cymru ar 27 Ionawr 2011, roedd Gorchymyn arfaethedig y Pwyllgor yn nwylo Swyddfa Cymru, yn aros i Ysgrifennydd Gwladol Cymru geisio cymeradwyaeth Cabinet y DU cyn cyflwyno’r Gorchymyn gerbron y Senedd.

34. Cafodd y Gorchymyn ei gyflwyno gerbron y Senedd o’r diwedd ar 3 Chwefror 2011, ac mae’n aros am broses graffu cyn deddfu’r Pwyllgor Materion Cymreig a Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ’r Arglwyddi.

### *Cynnydd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hyd Ionawr 2011*

35. Daeth y Pwyllgor i’r casgliad bod cynnydd araf y Gorchymyn yn deillio o benderfyniad Gweinidogion Cymru i roi blaenoriaeth i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, yn hytrach na’i fod wedi dioddef o ganlyniad i unrhyw beth yn ymwneud ag adnoddau neu gymhwysedd o fewn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Roedd y Pwyllgor hefyd yn teimlo bod craffu cyn deddfu ar y Gorchymyn yn y Senedd wedi’i ddal yn ôl oherwydd y flaenoriaeth a roddwyd i Orchymyn Arfaethedig Llywodraeth Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) 2011, er bod y Gorchymyn hwnnw’n disodli Gorchymyn arfaethedig y Pwyllgor.

36. Roedd hyn yn achos rhwystredigaeth i’r Pwyllgor gan fod ei Orchymyn yn adlewyrchu dymuniadau a disgwyliadau deisebwyr ac

amrywiaeth eang o randdeiliaid y tu allan i'r Cynulliad Cenedlaethol ac wedi derbyn cefnogaeth drawsbleidiol. Hefyd, dymuniad democrataidd y Cynulliad Cenedlaethol oedd y dylid bwrw ymlaen â'r Gorchymyn. Cyfeiriodd un Aelod at y profiad fel rhestr drist o oedi a rhwystredigaethau, ac fel hysbyseb gwael i'r sefydliad.

37. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad hefyd bod oedi wedi'i achosi gan Adrannau Whitehall megis Defra am nad oedd ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o ddatganoli na phroses y Gorchmynion, ac oherwydd newidiadau o fewn nifer o wahanol Adrannau, a oedd wedi arwain at ddiffyg dilyniant a momentwm. Hefyd, roedd y Pwyllgor yn amau'r sefyllfa pan oedd negodiadau ar ddeddfwriaeth arfaethedig y Cynulliad yn digwydd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn unig, ac nad oedd staff y Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu cynnwys.

**Yn y Pedwerydd Cynulliad, efallai y bydd pwyllgor y dyfodol yn dymuno edrych ar y tyndra rhwng Mesurau Cynulliad arfaethedig a gynigir gan y Llywodraeth a rhai nad ydynt yn cael eu cynnig gan y Llywodraeth, a chwilio am ganlyniad mwy boddhaol i fwrw ymlaen â'r ddau fath yn y dyfodol.**

### *Cynnydd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar ôl Ionawr 2011*

38. Roedd canlyniad y Refferendwm ar 3 Mawrth yn allweddol i'r camau oedd yn weddill o Orchymyn arfaethedig y Pwyllgor. Byddai mwyafrif yn erbyn y cynnig wedi golygu y byddai'r Gorchymyn wedi gorfod cwblhau ei daith ddeddfwriaethol drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn diddymu'r Cynulliad ar 31 Mawrth 2011: fel arall byddai'r Gorchymyn wedi syrthio. Byddai mwyafrif o blaid y cynnig wedi golygu na fyddai angen am y Gorchymyn gan na fyddai'n rhaid gwneud cais mwyach i'r Senedd am gymhwysedd deddfwriaethol.

39. Ar 27 Ionawr 2011, roedd Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru ill dau'n dal yn obeithiol y byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn mynd trwodd yn ystod oes y Trydydd Cynulliad. Fel y digwyddodd pethau, roedd pleidlais "Ie" lwyddiannus yn y Refferendwm yn golygu y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael cymhwysedd yn awtomatig i ddeddfu yn y maes hwn.

**Anogir y pwyllgor perthnasol yn y Pedwerydd Cynulliad i gyflwyno Mesur Cynulliad yn gynnar a fyddai'n gosod dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd i ddatblygu a chynnal rhwydwaith o lwybrau didraffig ledled Cymru ar gyfer cerddwyr a seiclwyr.**

### Cronfeydd Strwythurol: Gweithredu Rhaglenni 2007-13

40. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar weithredu Cronfeydd Strwythurol 2007-13 ym mis Gorffennaf 2010. Roedd cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn cynnwys cynnydd y cronfeydd hyd yn hyn; defnydd Llywodraeth Cymru o'r cronfeydd i ymateb i'r dirwasgiad; dosbarthiad cyllid ar draws prosiectau a arweinir gan y sectorau cyhoeddus, preifat a dielw; a chynaliadwyedd prosiectau ar ôl 2013.

41. O'r 19 argymhelliad a wnaeth y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru, derbyniwyd 13 ohonynt, derbyniwyd pump mewn egwyddor a gwrthodwyd un. Ar 10 Chwefror 2011, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn ddilynol gyda rhai o dystion yr ymchwiliad gwreiddiol - yr Athro Dylan Jones-Evans o Brifysgol Caerdydd, y prosiect Pontydd i Waith a'r prosiect Adeiladu'r Dyfodol gyda'n Gilydd - i drafod y cynnydd a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru i weithredu argymhellion yr adroddiad. Nid oedd y Dirprwy Brif Weinidog ar gael i'w holi, ond cynigiodd ateb drwy lythyr unrhyw gwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor.

42. Roedd argymhelliad 1 adroddiad y Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi asesiad i'r Pwyllgor o ffigurau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) 2008 yr Undeb Ewropeaidd pan fyddant yn cael eu cyhoeddi. Cyhoeddodd Eurostat amcangyfrifon GDP rhanbarthol y pen 2008 ar gyfer rhanbarthau ac isranbarthau'r UE ar 24 Chwefror 2011. Ysgrifennodd y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor ar 17 Mawrth i ddweud bod GDP y pen ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gostwng i 71 y cant o gyfartaledd yr EU27 yn 2008, i lawr o ffigur 2007 o 73 y cant.[12] Dywed y llythyr y gellid priodoli'r gostyngiad yn bennaf i'r dirywiad ym mherfformiad y DU o'i gymharu â'r EU27.

43. Yn ôl dadansoddiad y Pwyllgor o ffigurau Eurostat nid oedd y fath ddirywiad i'w weld ledled y DU. Roedd Cernyw ac Ynysoedd Scilly, er enghraifft, wedi llwyddo i gynnal eu GDP y pen o'i gymharu â 2007. Yn ôl asesiad y Pwyllgor roedd ffigurau 2008 yn debygol o fod yn ail mewn set cyfeirio GDP tair blynedd a ddefnyddir i benderfynu ar

[12] Llythyr gan Ieuan Wyn Jones at Gareth Jones, dyddiedig 17 Mawrth 2011

ranbarthau cymwys ar gyfer statws Cydgyfeirio yn y dyfodol (neu beth bynnag fyddai enw'r Rhaglen a'i dilynai), mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn debygol o fod yn gymwys yng nghyfnod nesaf y rhaglen.

### *Perfformiad y Rhaglenni*

44. Tynnodd yr Athro Dylan Jones-Evans sylw'r Pwyllgor at bwysigrwydd ystyried perfformiad cymharol ardaloedd sy'n derbyn Cyllid Strwythurol Ewropeaidd – nid yn unig *rhwng* Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru (lle'r ymddengys iddo ef fod perfformiad y Rhaglen Gystadleurwydd gryn dipyn yn well na'r Rhaglen Gydgyfeirio), ond hefyd *o fewn* y ddau ranbarth, lle'r oedd twf mewn rhai ardaloedd megis Caerdydd yn sylweddol uwch nag mewn ardaloedd eraill, megis Wrecsam a Sir y Fflint. Credai nad oedd yr ymagwedd "one-size-fits all" a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn gweithio, a bod angen ei strategaeth ei hun ar bob ardal. Credai y byddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn gefnogol iawn pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu cymryd yr awenau i gydweithredu â rhanbarthau eraill sy'n derbyn Cronfeydd Strwythurol – yn enwedig cyllid Cydgyfeirio – i ddysgu o'u profiadau ac i ychwanegu gwerth ar draws y rhanbarthau hynny. [13]

45. Clywodd y Pwyllgor gan yr Athro Jones-Evans nad oedd busnesau bach yn cymryd rhan yn y Rhaglenni presennol oherwydd bod y broses o wneud cais mor eithriadol o ddyrys o'r cam o gyflwyno'r cais i'r penderfyniad terfynol, a bod hynny'n golygu na ellid cadw cyfalaf a oedd wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau o'r neilltu ond bod yn rhaid yn hytrach ei ddefnyddio i ddibenion eraill.[14]

46. Ail thema bwysig tystiolaeth yr Athro Jones-Evans oedd yr angen i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) adrodd yn fwy rheolaidd ar berfformiad y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, nid yn unig i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni, ond hefyd i'r pwyllgor craffu perthnasol yn y Pedwerydd Cynulliad.[15]

**Dylai cynnydd wrth weithredu'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol presennol barhau i fod yn destun craffu yn y Pedwerydd Cynulliad. Dylai'r pwyllgor perthnasol ofyn am ddiweddariadau rheolaidd oddi wrth Lywodraeth Cymru a dylai ymdrechu i ymchwilio i**

---

[13] Cofnod y Trafodion paragraffau 7-13 a 76, 10 Chwefror 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu
[14] Cofnod y Trafodion paragraffau 43-44, 10 Chwefror 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu
[15] Cofnod y Trafodion paragraff 11, 10 Chwefror 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**wahaniaethau ac anghysonderau rhwng rhanbarthau, yn ogystal â chraffu ar berfformiad Cymru o'i gymharu â rhanbarthau eraill y DU a'r UE yn gyffredinol.**

47. Ni wnaeth gwaith craffu'r Pwyllgor gynnwys y rhesymau dros ddiffyg perfformiad Cymru yn economaidd, felly efallai y bydd Pwyllgor Cynulliad yn y dyfodol yn dymuno eu hystyried.

### *Casglu data a dyblygu ymdrechion*

48. Clywodd y Pwyllgor gan brosiect Adeiladu'r Dyfodol gyda'n Gilydd yn Rhondda Cynon Taf fod pryderon o hyd wrth i wahanol brosiectau gyfrif yr un gweithgareddau a chyfranogwyr ddwywaith wrth fonitro eu deilliannau. Awgrymodd rheolwr y prosiect y dylai WEFO fod wedi pennu system wybodaeth briodol a chyffredinol am gyfranogwyr y gallai pob prosiect ei defnyddio'n lleol i osgoi'r risg o gyfrif dwbl ac i sicrhau dull cyson o gyfrif. [16]

49. Pan ofynnodd y Pwyllgor i'r prosiect Pontydd i Waith am ymateb y Llywodraeth i argymhelliad (17) y Pwyllgor ar gyfrif dwbl dywedodd rheolwr y prosiect nad oedd yn fodlon bod yr ymateb yn mynd â phethau'n ddigon pell.[17] Roedd gan y Pwyllgor brofiad uniongyrchol o ddyblygu deilliannau llwyddiannus pan edrychodd ar y gwahanol raglenni sy'n targedu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant yn Abertawe.

50. Ar y llaw arall, roedd y Pwyllgor yn ymwybodol hefyd o'r risg o *dangyfrif* Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) fel mesur o lwyddiant y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol oherwydd "colledion" o ran lle mae GVA yn cael ei greu (er enghraifft, pobl yn dod o hyd i swyddi ac yna'n cymudo y tu allan i'r ardal lle maent yn byw).

**Mae risg o hyd o gyfrif dwbl a thangyfrif deilliannau neu lwyddiannau prosiectau, a allai effeithio ar gynnydd unigolyn, a dylai'r Pedwerydd Cynulliad barhau i fonitro hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o hyn ond dylai sicrhau bod systemau casglu data yn osgoi problemau o'r fath, gan gynnwys annog cytundebau lleol pan fydd gwahanol ymyriadau prosiectau'n gorgyffwrdd.**

---

[16] Cofnod y Trafodion paragraffau 84-85, 10 Chwefror 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu
[17] Cofnod y Trafodion paragraff 95, 10 Chwefror 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**Yn ogystal, dylid annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu cyfres lawnach o ddata i fonitro'r cynnydd y tu hwnt i Werth Ychwanegol Crynswth yn unig.**

### *Arian Cyfatebol a Dargedir*

51. Roedd y Pwyllgor yn bryderus o glywed gan y prosiect Adeiladu'r Dyfodol gyda'n Gilydd bod y gyllideb ar gyfer Arian Cyfatebol a Dargedir yn awr wedi'i ddyrannu i gyd tan 2013.[18] Nid oedd gan y Pwyllgor ddigon o amser i gadarnhau'r datganiad hwn gyda Llywodraeth Cymru, ond roedd gwefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn datgan (ar 24 Mawrth 2011) nad oedd unrhyw geisiadau newydd am arian cyfatebol a dargedir yn cael eu derbyn, er y gellid cyflwyno ceisiadau am gymorth refeniw o hyd.

**Dylid monitro effaith y toriadau yng ngwariant y sector cyhoeddus ar argaeledd arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Cronfeydd Strwythurol yn ofalus ac, os bydd angen, dylid cael cynlluniau wrth gefn.**

### *Etifeddiaeth*

52. Gwnaethpwyd pwynt pwysig gan y prosiect Adeiladu'r Dyfodol gyda'n Gilydd a eglurodd gan fod y rhaglen gyfredol yn cynnwys prosiectau mwy a rhai mwy strategol, byddant yn cael mwy o effaith ac yn gadael bwlch llawer mwy ar ddiwedd y prosiect na'r hyn fyddai wedi digwydd yn achos prosiectau llai, mwy hunangynhaliol y rownd gyllido flaenorol. O ganlyniad roedd yn anos llunio strategaethau gadael nag yn y gorffennol.[19]

**Dylid herio WEFO i weithio mewn partneriaeth â'r holl brosiectau yn Rhaglenni 2007-13 i greu atebion cynaliadwy ar gyfer y cymunedau a'r unigolion a effeithir pan ddaw'r prosiectau hyn i ben.**

---

[18] Cofnod y Trafodion paragraffau 110-114, 10 Chwefror 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu
[19] Cofnod y Trafodion paragraffau 130-134, 10 Chwefror 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Rhaglen Adnewyddu'r Economi

53. Yn ystod tymor hydref 2010 bu'r Pwyllgor yn craffu ar ddull Llywodraeth Cymru o weithredu, monitro a gwerthuso Rhaglen Adnewyddu'r Economi, a oedd wedi'i chyhoeddi yn y mis Gorffennaf blaenorol. Roedd adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys 14 o argymhellion ac roedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn pump ohonynt yn gyfan gwbl, pump arall mewn egwyddor, ac wedi gwrthod y pedwar arall.

54. Oherwydd ei anfodlonrwydd ag ymateb y Llywodraeth, ysgrifennodd y Pwyllgor eto at y Dirprwy Brif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau i ofyn am eglurhad pam yr oedd pedwar argymhelliad wedi'u gwrthod, ac i ofyn i'r Gweinidogion ymateb yn ysgrifenedig ac i ymddangos gerbron sesiwn graffu bellach ar 17 Chwefror.

55. Roedd y Pwyllgor yn fwy bodlon ar ôl y sesiwn graffu ddilynol bod mwy o gynnydd yn cael ei wneud i roi'r strategaeth economaidd newydd ar waith. Fodd bynnag, mae rhai elfennau'n parhau'n achos pryder i'r Pwyllgor.

### *Band eang*

56. Clywodd y Pwyllgor gan y Dirprwy Brif Weinidog y dylai Llywodraeth Cymru fod mewn sefyllfa i ddyfarnu contract i ddarparu band eang y genhedlaeth nesaf mewn rhannau o Gymru lle mae'n amlwg bod y farchnad yn methu a hynny o fewn tua 12 mis. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod hon yn rhaglen uchelgeisiol iawn ac yn un o'r contractau mwyaf y bydd yr adran wedi'i dyfarnu mewn amser math iawn. Roedd yn rhagweld y byddai arian yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru ac Ewrop, gydag arian cyfatebol o'r sector preifat, ynghyd â £10 miliwn gan Lywodraeth y DU, er bod hyn gryn dipyn yn llai na'r £25 miliwn a fyddai wedi bod yn gyfran Barnett Cymru.[20]

57. Mynegodd y Pwyllgor bryder nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal dadansoddiad cost a budd penodol o ddargyfeirio adnoddau oddi wrth gymorth busnes uniongyrchol i fuddsoddi mewn band eang y genhedlaeth nesaf, er iddo glywed bod achos busnes wedi'i baratoi ar gyfer y strategaeth fand eang cyn caffael.

---

[20] Cofnod y Trafodion paragraffau 10-11, 17 Chwefror 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu

58. Roedd y Pwyllgor yn siomedig hefyd ag ymateb y Dirprwy Brif Weinidog i'r modd y byddai strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu band eang y genhedlaeth nesaf ledled Cymru erbyn 2015 yn cyd-fynd ag amserlen cyflawni Llywodraeth y DU a oedd yn rhoi 2016 fel dyddiad, ac a oedd Cymru'n derbyn ei chyfran deg o'r arian sydd ar gael yn ar gyfer y DU. Nododd y Pwyllgor y bydd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin yn dechrau ymchwilio i Fand Eang yng Nghymru yn nhymor yr haf.

**Dylid parhau i graffu ar waith Llywodraeth Cymru ar y cyd â Llywodraeth y DU i egluro amserlenni a sicrhau digon o arian i ddarparu band eang y genhedlaeth nesaf ar draws Cymru gyfan erbyn 2015.**

### *Monitro a gwerthuso*

59. Yn fwy eang na llwyddiant y strategaeth band eang, mynegodd y Pwyllgor bryder nad oedd y fframwaith ar gyfer monitro a gwerthuso perfformiad Rhaglen Adnewyddu'r Economi byth wedi ei gyhoeddi, er gwaethaf yr addewid y byddai'n cael ei gyhoeddi erbyn hydref 2010.

**Dylid parhau i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif: yn gyntaf i sicrhau bod dadansoddiadau cost a budd yn cael eu cynnal cyn gwneud unrhyw newidiadau i strategaethau datblygu economaidd, ac yn ail i fesur a gwerthuso llwyddiant Rhaglen Adnewyddu'r Economi yn drylwyr.**

### *Pontio a chyfathrebu*

60. Roedd yn arwyddocaol bod papur ar y cyd gan y Gweinidogion ar gyfer y sesiwn graffu ar 17 Chwefror yn cyfaddef y gellid bod wedi gwneud mwy i hysbysu busnesau yng Nghymru am y newidiadau a fyddai'n deillio o Raglen Adnewyddu'r Economi.

61. Cred y Pwyllgor y gellid bod wedi gwneud mwy i hysbysu staff Llywodraeth Cymru am y newidiadau hynny ac i leihau'r effaith ar fomentwm a morâl y staff. Y farn oedd bod y diffyg dilyniant yn yr Adran yn ystod y cyfnod pontio wedi cael effaith andwyol ar y gwasanaeth a ddarparwyd i'r gymuned fusnes.

*Alinio sgiliau a datblygu economaidd*

62. Roedd dogfen Rhaglen Adnewyddu'r Economi yn datgan y byddai diweddariad o'r cynllun gweithredu "Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru" yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2010. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym gan fod sgiliau'n elfen mor allweddol o raglen adnewyddu'r economi bod penderfyniad wedi'i wneud i beidio diweddaru'r cynllun gweithredu ond yn hytrach i wneud datganiad ar y cyd (a ddisgwylir fis Mawrth 2011) rhyngddi hi a Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.[21] Cafwyd datganiad ar Sgiliau ar gyfer Adnewyddu'r Economi ar 10 Mawrth 2011. Eglurodd y Gweinidog i'r Pwyllgor yn ddiweddarach mai'r Dirprwy Weinidog oedd yn gyfrifol am asesu'r galw am sgiliau, a'i fod yntau'n gyfrifol am ddarparu'r cymorth sydd ei angen i ymateb i'r galw hwnnw.

63. Roedd papur ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog ar gyfer sesiwn graffu'r Pwyllgor ar y Cynghorau Sgiliau Sector ar 17 Mawrth yn gopi gair am air o'r datganiad ar y cyd a gyhoeddwyd ar 10 Mawrth.

**Mae'n hanfodol bod yr agenda sgiliau yng Nghymru'n cael ei halinio a'i hintegreiddio ag amcanion Rhaglen Adnewyddu'r Economi, yn hytrach na chael ei glynu at system sydd eisoes yn un gymhleth. Dylai'r Gweinidogion a fydd yn gyfrifol am Addysg, Sgiliau a Datblygu Economaidd yn y Pedwerydd Cynulliad ddwyn eu polisïau'n nes at ei gilydd a chraffu ar y cyd ar y manylion sut y bydd alinio ac integreiddio twf sgiliau a thwf economaidd yn cael ei gyflawni.**

64. Sylwodd y Pwyllgor hefyd ar y gwahaniaeth ar hyn o bryd rhwng y chwe sector twf sy'n cael blaenoriaeth yn Rhaglen Adnewyddu'r Economi a'r hinsawdd ddiwydiannol bresennol yng Nghymru. Yn y sesiwn dystiolaeth â'r Cynghorau Sgiliau Sector a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru ar 10 Mawrth mynegwyd pryder cyffredinol nad oedd sectorau megis twristiaeth a manwerthu'n cael eu gweld fel blaenoriaeth; nac ychwaith gofal cymdeithasol. Ond mae twristiaeth yn ddiwydiant bara menyn mewn rhai rhannau o Gymru ac mae darpariaeth gofal plant o safon yn hanfodol ar gyfer twf economaidd yng Nghymru gyfan gan ei fod yn galluogi mwy o bobl i fynd allan i weithio.

[21] Cofnod y Trafodion paragraffau 30-31, 17 Chwefror 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu

65. Clywodd y Pwyllgor gan y Dirprwy Weinidog fod disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi rhestr o “gwmnïau angori” a “chwmnïau o bwys rhanbarthol” i helpu sicrhau bod y sgiliau sydd eu hangen ar y sectorau a’r cwmnïau ar gael.[22] Cyhoeddwyd rhestr o gwmnïau angori ar 2 Mawrth 2011. Nid oedd yn amlwg, fodd bynnag, sut yr oedd y Llywodraeth wedi diffinio’r cwmnïau hynny, ac ym mha ffordd y gallai diffiniadau amrywio rhwng gwahanol ardaloedd.

**Mae’r angen am uwchsgilio a thwf busnes y tu allan i’r chwe sector twf sy’n cael blaenoriaeth gan y Llywodraeth yn parhau. Dylai pwyllgor o’r Pedwerydd Cynulliad ddal ati i graffu ar y cymorth a datblygiad sgiliau a darperir gan Lywodraeth Cymru i bob busnes, ac nid i’r rhai sy’n dod o fewn y sectorau blaenoriaeth yn unig.**

[22] Cofnod y Trafodion paragraff 34, 17 Chwefror 2011, Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Y Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru

66. Mae Cynghorau Sgiliau Sector yn sefydliadau annibynnol, a arweinir gan gyflogwyr sy’n weithredol ledled y DU i ddatblygu system o ddysgu sgiliau sy’n seiliedig ar ofynion cyflogwyr. Cânt eu trwyddedu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau, mewn ymgynghoriad â Gweinidogion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rhwng Medi 2008 a Rhagfyr 2009 ymgymerodd Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau â phroses ail-drwyddedu ar gyfer y Cynghorau Sgiliau Sector o ganlyniad i’r cynnig a wnaethpwyd yn Adolygiad annibynnol o Sgiliau’r DU o dan ofal Leitch.

67. Roedd nifer o ymchwiliadau’r Pwyllgor dros y pedair blynedd diwethaf wedi bwrw amheuaeth dros berfformiad y Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru. Roedd pryder mwyaf y Pwyllgor yn ymwneud â gallu’r Cynghorau Sgiliau Sector i wireddu’r weledigaeth ar gyfer gwella sgiliau fel yr amlinellwyd yn strategaeth Sgiliau sy’n Gweithio i Gymru Llywodraeth Cymru. Roedd y Pwyllgor yn teimlo felly y byddai’n fuddiol i edrych yn fwy manwl ar rôl y Cynghorau drwy graffu ar Gynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector, Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru[23] a’r Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau.

68. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed am y cynnydd sy’n cael ei wneud gan y 23 Cyngor Sgiliau Sector yng Nghymru a chafodd ei galonogi o glywed gan y Dirprwy Weinidog bod sylw’n cael ei roi i’r pryderon ynghylch Cynghorau unigol. Clywodd y Pwyllgor fod yr ymwybyddiaeth o Gynghorau Sgiliau Sector ymhlith cyflogwyr yng Nghymru yn uwch nag yng ngweddill DU, er mai dim ond 44 y cant oedd hynny. Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor â’r Gweinidog fod y darlun ar draws Cymru yn un cymysg. O gofio bod y Cynghorau Sgiliau Sector bellach rhwng pump a saith oed, roedd yr Aelodau yn parhau’n awyddus i weld gwelliannau pellach yn eu heffeithiolrwydd.

### *Cyllido*

69. Mae gallu’r Cynghorau Sgiliau Sector yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar eu hadnoddau, a chyda Chomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau’n wynebu toriadau o 40 y cant yn ei gyllid ynghyd â newid posibl o gyllido craidd i gyllido prosiect, roedd y Pwyllgor yn bryderus am yr effaith a gâi hyn ar y Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru.

[23] Sefydlwyd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn 2008 i gynghori Gweinidogion Cymru ar bolisïau cyflogaeth a sgiliau, gyda phwyslais arbennig ar roi safbwynt y cyflogwr

**Dylid annog Llywodraeth Cymru i bwyso ar brif swyddfeydd y Cynghorau Sgiliau Sector i ddeall datganoli ac i ddarparu'r adnoddau priodol yn eu swyddfeydd yng Nghymru.**

***Ymgysylltu â busnesau bach***

70. Mae ymgysylltu â busnesau bach a chanolig, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, yn her sy'n mynd i gymryd cryn amser i'r Cynghorau Sgiliau Sector ei wynebu. Clywodd y Pwyllgor mai un ffordd o wella ymgysylltu â chyflogwyr oedd bod pob Cyngor Sgiliau Sector yng Nghymru'n cael ei fwrdd cynghori ei hun a fyddai'n cwrdd yn rheolaidd i ddylanwadu ar flaenoriaethau hyfforddi a sgiliau ei sector: roedd bwrdd cyflogwyr ar gyfer busnes a thechnoleg ar gyfer e-skills UK yn enghraifft o arfer da yn hyn o beth. Clywodd y Pwyllgor hefyd gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru y gallai cwmnïau angori chwarae rôl ganolog i sicrhau ymgysylltu mwy eang drwy'r cadwynau cyflenwi o'u cwmpas.

**Mae angen i'r Cynghorau Sgiliau Sector gymryd camau strategol i ymgysylltu â busnesau bach a chanolig, gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Dylid parhau i fonitro eu perfformiad yn y maes hwn, a gallai rhai o'r dangosyddion gynnwys bodolaeth bwrdd cynghori cyflogwyr gweithredol, ac a ydynt yn ymgysylltu drwy gwmnïau angori a'u cadwynau cyflenwi.**

71. Roedd y Pwyllgor yn pryderu ynghylch diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol y Cynghorau Sgiliau Sector. Awgrymodd y Dirprwy Weinidog efallai y gellid clystyru'r Cynghorau Sgiliau Sector o dan enwau mwy cyson fel y byddai'n haws i fusnesau bach a chanolig eu canfod ac i fanteisio arnynt.

**Dylid annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU ar symleiddio'r Cynghorau Sgiliau Sector ac ar sicrhau y rhoddir digon o adnoddau i Gyngrhair y Cynghorau Sgiliau Sector i ddwyn y Cynghorau ynghyd wrth weithredu eu rôl o fewn y cylch dysgu.**

***Cysylltiadau ag addysg a'r trydydd sector***

72. Teimlai'r Pwyllgor y dylai'r trydydd sector hefyd gael ei wasanaethu'n well gan Gynghorau Sgiliau Sector. Clywodd y Pwyllgor hefyd fod angen i'r Cynghorau Sgiliau Sector chwarae rôl fwy mewn dysgu gydol oes ac mewn cynghori ar ddiwygio a pherthnasedd y

cwricwlwm galwedigaethol ac ar y strwythurau gyrfaol a'r cyfleoedd swyddi sydd ar gael yn eu sectorau.

**Dylid dal ati i annog a chraffu ar berthynas y Cynghorau Sgiliau Sector â'r sector addysg ac ysgolion i gydweithio ar gwricwla a chymwysterau sy'n ateb anghenion sgiliau'r dyfodol.**

### *Prentisiaethau*

73. Roedd y Pwyllgor yn bryderus o glywed tystiolaeth anecdotaidd fod y dirwasgiad economaidd wedi arwain at gwtogi prentisiaethau mewn rhai ardaloedd. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod eu tystiolaeth yn dangos fod y sefyllfa yn gymysglyd, gyda rhai sectorau'n cael eu heffeithio fwy nag eraill, ond bod y Llywodraeth yn gweithio â Gyrfa Cymru, y Cyngor Sgiliau Sector a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, i sicrhau bod y prentisiaid a effeithir yn gallu symud at ddarparwyr eraill.

**Dylid monitro'r cynllun Llwybrau at Brentisiaethau i sicrhau bod pobl ifanc sydd am ddilyn prentisiaeth yn cael y cyfle i wneud hynny, a bod cynlluniau ychwanegol ar waith pan yn bosibl i atal prentisiaethau sy'n bod eisoes rhag cael eu cwtogi.**

### *Gwybodaeth am y Farchnad Lafur*

74. Yn olaf ar bwnc sgiliau, mae gan y Cynghorau Sgiliau Sector rôl allweddol i'w chwarae drwy ddarparu gwybodaeth ddibynadwy am y farchnad lafur (LMI). Clywodd y Pwyllgor gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru am y diffygion presennol yn y data ar gyflenwad a'r galw am sgiliau yng Nghymru, yn enwedig ar y lefel leol. Cafodd y Pwyllgor ei galonogi felly gan sylw'r Gweinidog fod Uned Gwybodaeth am y Farchnad Lafur newydd yn cael ei sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r agenda hon.

**Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pa mor anodd a chymhleth yw cynllunio ar gyfer sgiliau. Fodd bynnag, mae angen gwella Gwybodaeth am y Farchnad Lafur fel y bydd yn fwy manwl, cywir, dadansoddol ac yn edrych yn fwy i'r dyfodol i wella'r ddarpariaeth sgiliau, yn enwedig ar y lefel leol. Bydd angen monitro gwaith yr Uned Gwybodaeth am y Farchnad Lafur newydd yn y Pedwerydd Cynulliad.**

## Cyfraniad Economaidd Addysg Uwch yng Nghymru

75. Dechreuodd y Pwyllgor ymchwilio i Gyfraniad Economaidd Addysg Uwch ym mis Tachwedd 2007 a pharodd am bron i ddwy flynedd. Er bod y sector addysg uwch yn wynebu heriau enfawr ar hyn o bryd o ran cyllido a newidiadau strwythurol, cred y Pwyllgor fod llawer o'r 32 o argymhellion a oedd wedi'u cynnwys yn ei adroddiad terfynol ym mis Hydref 2009 yn berthnasol o hyd ac yn parhau'n amcanion tymor hir.

76. Penderfynodd y Pwyllgor felly ofyn barn yr Athro Andy Penaluna, sy'n cyfaddef ei fod yn "bracademydd"[24] ac Athro Entrepreneuriaeth Greadigol cyntaf Cymru ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe, ac i gynnal sesiwn ddilynol â'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y cynnydd a wnaethpwyd i weithredu argymhellion y Pwyllgor.

### *Entrepreneuriaeth*

77. Un o brif themâu adroddiad 2009 y Pwyllgor oedd masnacheiddio syniadau ymchwil a chynyddu cyfnewid gwybodaeth o fewn addysg uwch, gan gynnwys yr angen i ymgorffori entrepreneuriaeth yn niwylliant prifysgolion – yn y staff a'r myfyrwyr.

78. Roedd y Pwyllgor felly'n bryderus o glywed gan yr Athro Penaluna pa mor ansicr y gall swyddi staff "entrepreneuraidd" fod, a chyn lleied o glod y mae haenau uchaf addysg uwch yn dueddol o'i roi i'w cyflawniadau. Ymdebygodd y sefyllfa bresennol i wthio carreg i fyny rhyw.

79. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod diwylliant caeedig yn bodoli o hyd mewn rhai rhannau o'r byd academaidd, a bod angen chwalu'r rhwystrau sy'n bodoli rhag rhoi i entrepreneuriaeth y statws a'r flaenoriaeth mae'n ei haeddu. Mae tystiolaeth o hyd o fodolaeth meddylfryd mewnblyg rhwng llawer o feysydd academia, diwydiant ac addysg, ac mae'n rhaid i'r cysylltiadau rhyngddynt gael eu datblygu'n well drwy ddod â meddyliadau entrepreneuraidd i'r system addysg.

80. Pwysleisiodd yr Athro Penaluna bwysigrwydd y berthynas rhwng yr athro a'r myfyriwr unigol. Gall y myfyrwyr mwyaf anodd ddatblygu i fod y mwyaf brwd o blith entrepreneuriaid, a rhaid yn aml wrth feddwl anghonfensiynol i greu'r datblygiadau pwysicaf. Er hynny, roedd y Pwyllgor yn sylweddoli pa mor anodd yw hi i ymgorffori

---

[24] Mae pracademydd yn rhywun sy'n meddu ar arbenigedd busnes ac academaidd

entrepreneuriaeth o fewn system addysg sydd wedi'i seilio i raddau helaeth ar gydymffurfio (e.e. o ran cwricwlwm, safonau ac asesu). Rhaid i'r system felly wneud mwy i feithrin a gwobrwyo'r annisgwyl a'r creadigol drwy annog a datblygu gallu myfyrwyr i herio.

81. Cafodd y Pwyllgor ei galonogi o glywed adborth positif ynghylch hyblygrwydd ac amlochredd y Cyfnod Sylfaen, Bagloriaeth Cymru a'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid i Gymru (YES), sydd â'r nod o annog menter, gwella gallu myfyrwyr i ddatrys problemau ac i feddwl yn arloesol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cymunedau tlawd lle gwelir diffyg menter a lle nad oes gan bobl ifanc yr hyder yn aml i fentro a mynd ati i sefydlu mentrau bach.

***Eiddo Deallusol a chyfnewid gwybodaeth***

82. Un o gasgliadau adroddiad 2009 y Pwyllgor oedd pa mor bwysig yw cyflymu proses Eiddo Deallusol y prifysgolion fel y bydd modd sicrhau hawliau patent a masnacheiddio syniadau a darganfyddiadau'n gyflymach a rhwyddach. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr arbenigedd a fyddai'n galluogi hyn yn bodoli yn ysgolion cyfraith y prifysgolion ond bod amharodrwydd i gynnig cyngor cyfreithiol, gan y byddai'r staff proffesiynol hynny'n debygol o fod yn atebol yn broffesiynol. Barn yr Athro Penaluna oedd y byddai cyflwyno myfyrwyr i egwyddorion sylfaenol Eiddo Deallusol yn gynnar yn y cwricwlwm yn ffordd o oresgyn rhai o'r problemau hyn.

83. Mewn cyferbyniad â'r ddelwedd hon, hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor am amrywiaeth o gynlluniau yn y sector addysg uwch sydd â'r nod o fanteisio ar a chynyddu rhyddhad Eiddo Deallusol, gan gynnwys y ddarpariaeth, drwy'r cynllun A4B (Arbenigedd Academaidd i Fusnes), am rownd newydd o gyllid datblygu camau cynnar sydd â'r nod o alluogi prifysgolion yng Nghymru i brynu cyngor cyfreithiol ar Eiddo Deallusol. Arweiniodd hyn y Pwyllgor i amau a oedd y negeseuon yn cyrraedd yr academyddion yn y prifysgolion a fyddai'n elwa ar hyn.

84. Clywodd y Pwyllgor fod disgwyl i'r adolygiad annibynnol, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Ian Hargreaves, i ganfod i ba raddau y mae'r system Eiddo Deallusol bresennol yn hybu twf ac arloesedd, gyflwyno'i adroddiad fis Ebrill 2011. Dylai hyn arwain at gynigion newydd i oresgyn rhwystrau rhag hyrwyddo entrepreneuriaeth a masnacheiddio.

85. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed gan yr Athro Penaluna bod gwahodd entrepreneuriaid i ymweld ag ysgolion, colegau a

phrifysgolion i rannu eu gwybodaeth a'u profiad â myfyrwyr wedi bod yn llwyddiannus, ond nid y rhai hynny sydd wedi llwyddo orau oedd yr ysbrydoliaeth a'r symbyliad mwyaf i fyfyrwyr, ond y rhai sy'n dal i weithio'n galed i lwyddo. Hefyd pwysleisiodd pa mor bwysig yw bod myfyrwyr i ddod i gysylltiad â chyflogwyr allanol fel rhan o'i hasesiad ar y cwrs.

**Mae angen ymagwedd fwy cydlynus tuag at ddod â syniadau o academia i'r farchnad, ac i godi statws a dylanwad hyrwyddwyr entrepreneuriaeth yn y system addysg uwch. Er gwaethaf yr hinsawdd bresennol lle mae heriau cyllido ac ailstrwythuro'n effeithio ar y sector addysg uwch, dylai masnacheiddio a chyfnewid gwybodaeth barhau i fod yn flaenoriaethau i bolisi addysg uwch. Dylai pwyllgor yn y dyfodol barhau i adolygu'r sefyllfa hon.**

**Dylai pwyllgor yn y dyfodol hefyd graffu ar y polisi gwyddoniaeth newydd i Gymru, sy'n cael ei arwain gan y Prif Gynghorydd Gwyddonol, i sicrhau ei fod yn cyfrannu at fasnacheiddio syniadau Cymreig ym mhynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg.**

***Ymchwil***

86. Roedd Argymhelliad 9 adroddiad 2009 y Pwyllgor am weld ymagwedd fwy strategol tuag at reoli ymchwil drwy hybu cydweithredu rhwng sefydliadau addysg uwch wrth fidio am brosiectau. Clywodd y Pwyllgor gan y Gweinidog fod cynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn ac ar ôl 2011-12 byddai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn addasu ei drefniadau cyllido i ganolbwyntio mwy ar ragoriaeth mewn ymchwil gynaliadwy.

**Dylai Prifysgolion Cymru barhau i gael eu dwyn i gyfrif am eu gallu i ddenu cyllid ymchwil drwy weithio'n fwy strategol a chydweithredol. Yn fwyaf arbennig, gallai prifysgolion roi mwy o bwyslais ar flaenoriaethau'r cynghorau ymchwil.**

***Ymgysylltu â busnes***

87. Er bod arwyddion i'w gweld bod addysg uwch yn ymgysylltu mwy â chyflogwyr mawr, roedd y Pwyllgor yn teimlo bod angen o hyd i greu

cysylltiadau â busnesau bach a chanolog. Crynhodd y Gweinidog hyn yn daclus pan ddywedodd er bod busnesau'n gallu ymgysylltu'n effeithiol ag addysg uwch, nid oedd wedi'i argyhoeddi bod sefydliadau addysg uwch yn dda bob amser am ymgysylltu â busnesau.

**Mae angen i sefydliadau addysg uwch ymgysylltu mwy yn y dyfodol â'r cwmnïau "angori" sydd wedi'u henwi gan Lywodraeth Cymru er mwyn cydweithredu mwy ar gymhwyso ymchwil a datblygu. Dylai'r ymagwedd gydweithredol hon barhau i gael ei monitro yn y Pedwerydd Cynulliad.**

**Yr Agenda Weddnewid ar gyfer Addysg ôl-16 oed**

88. Nodau Agenda Weddnewid Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd fis Medi 2008, oedd gweddnewid y rhwydwaith o ddarparwyr addysg ôl-16 oed; i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc; ac i leihau dyblygu yn y ddarpariaeth. Bu'r Pwyllgor yn holi'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg ar yr Agenda Weddnewid ar gyfer addysg ôl-16 oed ym mis Medi 2009. Ym mis Ebrill 2010, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth bellach gan y bobl sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y cynigion Gweddnewid, gan gynnwys athrawon a disgyblion Ysgol Gyfun y Barri, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg a Choleg y Barri; undebau'r athrawon; a'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

89. Ym mis Mehefin 2010 ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog i amlinellu ei gasgliadau a'i argymhellion, ac ymatebodd y Gweinidog iddynt ym mis Gorffennaf. Gan nad oedd yn fodlon ag ymateb y Gweinidog, penderfynodd y Pwyllgor holi'r Gweinidog a'i swyddogion ymhellach ar 17 Mawrth.

***Cynnydd yn ystod y 12 mis diwethaf***

90. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor dangosodd y Gweinidog yn eglur faint o gynnydd a wnaethpwyd yn ystod y 12 mis diwethaf ar yr hyn y cyfeirir ato bellach fel Gweddnewid "Pob Oed". Dywedodd y bydd "more directional policy framework" yn cael ei sefydlu, a fyddai'n dilyn Bwrdd Rhaglen Gweddnewid Pob Oed.

91. Roedd ei dystiolaeth ysgrifenedig hefyd yn onest wrth nodi nad oedd rhai Partneriaethau Dysgu wedi arwain at y newid mewn diwylliant a ddymunid drwy gydweithredu, a gwelwyd peth amharodrwydd i newid, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.[25] Nid oedd y Gweinidog yn fodlon trafod y dystiolaeth hon yn y sesiwn graffu ar 17 Mawrth, ond dywedodd mae'n debyg mai'r sector addysg bellach oedd y mwyaf dynamig o ran addasu i heriau Gweddnewid.

92. Eglurodd y Gweinidog i'r Pwyllgor mai'r awdurdodau addysg lleol, ac nid Llywodraeth Cymru, sy'n cymryd yr awenau i ysgogi newidiadau ac i ymgynghori â rhanddeiliaid ar gynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Awgrymodd y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio cosbau ariannol fel ffordd o gyflawni mwy, pe bai angen.

---

[25] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, 17 Mawrth 2011, paragraffau 30-32

93. O ran parch cydradd rhwng cyrsiau academaidd a galwedigaethol, pwysleisiodd y Gweinidog ei bod yn bwysig cynnal ansawdd y cyrsiau, boed hwy'n alwedigaethol neu academaidd, ac i sicrhau eu bod yn berthnasol i addysg uwch neu i gyflogwyr. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi darllen â diddordeb gasgliadau adroddiad Woolf a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a oedd yn edrych ar gyrsiau galwedigaethol yn Lloegr.

94. Cytunodd y Gweinidog â'r Pwyllgor ei bod yn bwysig cael trosolwg strategol o wariant cyfalaf a dywedodd fod yr holl gyllid cyfalaf wedi'i ddwyn ynghyd i sicrhau mwy o hyblygrwydd wrth wneud penderfyniadau. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar botensial modelau cyllid amgen yng nghyd-destun y rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, ond nad oedd dim cynigion penodol i'w cyhoeddi eto.

95. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n cyhoeddi adroddiad y grŵp Gorchwyl a Gorffen ar strwythur y ddarpariaeth addysg cyn diwedd mis Mawrth 2011.

**Dylai cynnydd pellach ar yr Agenda Weddnewid barhau i fod yn destun craffu yn y Pedwerydd Cynulliad oherwydd yr heriau gwirioneddol sy'n wynebu rhai o ardaloedd y Partneriaethau Dysgu. Dylai gwaith craffu yn y dyfodol gynnwys canfyddiadau'r grŵp Gorchwyl a Gorffen ar strwythur y ddarpariaeth addysg ac effaith y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf.**

### *Pobl ifanc agored i niwed*

96. Roedd y Pwyllgor yn bryderus ynghylch effaith Rhaglen Waith newydd Llywodraeth y DU ar bobl ifanc ddi-waith yng Nghymru, yn enwedig y bygythiad i rôl fugeiliol staff rheng flaen yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**Dylai pwyllgorau'r dyfodol annog Llywodraeth Cymru i weithio'n agos ag Adran Gwaith a Phensiynau'r DU a dylent fonitro effaith Rhaglen Waith newydd Llywodraeth y DU, yn enwedig sut mae'n effeithio ar y gofal bugeiliol a ddarperir ar gyfer pobl ifanc ddi-waith yng Nghymru.**

# Atodiad A – Ffeithiau a Ffigurau

Y Pwyllgor Menter a Dysgu, Mehefin 2007 – Mawrth 2011

| | Senedd | Mewn lleoliadau eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd | 97 | 6 | 103 |

| | Derbyniwyd | Derbyniwyd mewn Egwyddor | Gwrthodwyd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr argymhellion a wnaethpwyd i Lywodraeth Cymru | 194 | 124 | 31 | 349 |

| | Cyfanswm |
|---|---|
| Nifer yr adroddiadau a gyhoeddwyd (ac eithrio'r Adroddiad Etifeddiaeth) | 37 |
| Nifer o weithiau yr holwyd tystion | 557 |
| Nifer o weithiau y mae Gweinidogion wedi bod drwy'r broses graffu | 51 |
| Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy | 350+ |
| Nifer yr Aelodau Cynulliad sydd wedi eistedd ar y Pwyllgor | 17 |
| Nifer y deisebau a ystyriwyd | 9 |